



Llythyr at Aelodau o Senedd San Steffan/Aelodau o Senedd Cymru

15 Gorffennaf 2021

Annwyl Gydweithwyr

Fel y gwyddoch, fe wnaethom lansio Pàs COVID digidol y GIG ar 25 Mehefin. Mae hyn yn golygu bod pobl Cymru yn gallu cael mynediad at eu cofnod brechu ar-lein, a'i lawrlwytho fel tystiolaeth i hwyluso teithio tramor (mae tystysgrifau papur hefyd ar gael ar gais).

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yn cael gohebiaeth sylweddol ynglŷn â'r mater hwn. Er mwyn eich helpu i ddeall y broses, ac i'ch cyfeirio chi a'ch etholwyr at y pwynt cyswllt cyntaf, gweler y ddalen wybodaeth atodedig gyda'r dolenni perthnasol a'r rhifau ffôn ar gyfer y gwasanaeth hwn. Mae'n bwysig nodi nad oes angen i bobl gysylltu â'u meddygon teulu na'u bwrdd iechyd i ofyn iddynt ddarparu'r tystysgrifau hyn.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Briffio ar Dystysgrifau Pàs COVID

Sut gall dinasyddion gael dystysgrifau Pàs COVID

Tystysgrifau Digidol

O 25 Mehefin 2021 mae pobl Cymru wedi gallu gweld eu statws brechu ar y rhyngwrwyd drwy gyfrwng Pàs COVID digidol y GIG. Gellir gweld Pàs COVID y GIG drwy ddilyn y ddolen hon: <https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio>

Mae mynediad at Bàs COVID y GIG yng Nghymru'n golygu y bydd pobl yn gallu dangos tystiolaeth eu bod wedi cael y brechlyn ar eu ffôn, tabled neu liniadur, os oes angen tystiolaeth o'u statws brechu arnynt cyn teithio dramor. I ddechrau, rhaid i ddinasyddion brofi pwy ydynt drwy wasanaeth Mewngofnodi'r GIG ac yna lawrlwytho'r dystysgrif o wefan y GIG. Gall dinasyddion ddangos y dystysgrif ar eu dyfais ddigidol neu argraffu copi.

Nid yw Ap y GIG yn Lloegr ar gael i bobl Cymru ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Mae'r ddolen i wefan y GIG yn darparu'r un gwasanaeth ag Ap y GIG. Golyga hyn mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y gwasanaeth digidol a ddarperir ar gyfer dinasyddion Cymru a dinasyddion Lloegr.

I ddechrau bydd Pàs COVID digidol y GIG ar gael yn Saesneg yn unig tra bydd y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei ddatblygu. Mae'r copïau papur gwreiddiol sydd ar gael drwy ffonio'r rhif ffôn isod yn parhau i fod yn ddwyieithog.

Tystysgrifau papur

Mae llythyrau Pàs COVID y GIG wedi bod ar gael yng Nghymru ers mis Mai i'r rheini sydd angen teithio yn rhyngwladol ar frys a darparu tystiolaeth o'u statws brechu, gyda thystysgrifau'n cael eu hanfon yn y post. Bydd y llythyrau'n parhau i fod ar gael i bobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at y Pàs COVID digidol neu i'r rheini sydd eisiau dystysgrif ddwyieithog. Gall pobl wneud cais am Bàs COVID y GIG ar ffurf llythyr dwyieithog drwy ffonio **0300 303 5667**.

Mae ein cyngor yn parhau i fod yr un fath, rydym yn annog pobl i beidio â theithio dramor oni bai bod hynny'n gwbl hanfodol.

Materion trawsffiniol

Mae NHS Digital yn gweithio gyda GIG Cymru i roi trefniadau rhannu data ar waith rhwng Cymru a Lloegr.

Gall pawb sydd wedi'u brechu yng Nghymru neu yn Lloegr ac sydd wedi eu cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru gael Pàs COVID y GIG eisoes drwy wefan y GIG, a hynny ers 25 Mehefin 2021.

Bydd pawb sydd wedi eu cofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr ond sydd wedi cael y brechlyn yng Nghymru yn gallu cael tystiolaeth o'u brechlyn COVID drwy wefan y GIG o ddydd 22 Gorffennaf.

Cael cymorth i ddefnyddio Pàs COVID y GIG

Os ydych yn cael unrhyw anhawster mewngofnodi cysylltwch â [Chanolfan gymorth mewngofnodi'r GIG](#).

Os yw eich statws brechu'n anghywir, [cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol](#).